Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 119/2025

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2025

# Rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl anabl: Arolwg o gyflogwyr o Fusnesau Bach a Chanolig

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-722-4

Rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl anabl: Arolwg o gyflogwyr o Fusnesau Bach a Chanolig

Awdur: Elizabeth Diplock

Adroddiad Ymchwil Llawn: Diplock, E., (04/12/25) Rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl anabl: Arolwg o gyflogwyr o Fusnesau Bach a Chanolig. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 119/2025.

Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/rhwystrau-i-gyflogaeth-ar-gyfer-pobl-anabl

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a nodir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn a rennir gan Lywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: yrunedtystiolaethcydraddoldeb@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Geirfa ..... 3
Cyflwyniad a chefndir ..... 4
Methodoleg ..... 6
Canfyddiadau ..... 8
Pobl anabl sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd mewn busnesau bach a chanolig ..... 8
Arferion gwaith presennol ..... 12
Canfyddiadau ynghylch cyflogi pobl anabl ..... 15
Cynlluniau cymorth y Llywodraeth ..... 18
Casgliadau ..... 21
Atodiadau ..... 23
Atodiad A. Manylion y busnesau ..... 23
Atodiad B. Sampl o ddiffiniadau amrywiol ..... 23

## Rhestr o dablau

Tabl 1. Manylion y sampl fesul rhanbarth busnes.................................................................. 7

Tabl 2. Manylion y sampl fesul gweithgaredd busnes............................................................ 7

Tabl 3. Canran y sefydliadau sy'n cytuno â'r datganiadau cynhwysiant fesul rhanbarth ...... 14

Tabl 4. Canran y sefydliadau sy'n cytuno â'r datganiadau cynhwysiant ar sail nifer y gweithwyr ............................................................................................................ 14

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1. Canran y sefydliadau â 2 weithiwr neu fwy sy'n cyflogi pobl anabl ar hyn o bryd fesul gweithgaredd busnes ........................................................................................ 8

Ffigur 2. Ymwybyddiaeth o'r darpariaethau anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ........... 9

Ffigur 3. Ymwybyddiaeth o'r darpariaethau anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fesul gweithgaredd busnes [nodyn 1]............................................................................ 10

Ffigur 4. Ymwybyddiaeth o'r Model Cymdeithasol o Anabledd ........................................... 11

Ffigur 5. Ymwybyddiaeth o'r Model Cymdeithasol fesul math o weithgaredd busnes .......... 12

Ffigur 6. Barn ymatebwyr am hygyrchedd a chynhwysiant eu sefydliad ............................. 13

Ffigur 7. Canran y sefydliadau sy'n cytuno â'r datganiadau cynhwysiant ar sail trosiant ariannol ............................................................................................................ 15

Ffigur 8. Manteision canfyddedig cyflogi pobl anabl ............................................................ 16

Ffigur 9. Heriau canfyddedig cyflogi pobl anabl .................................................................. 17

Ffigur 10. Ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth cyflogaeth ............................................... 18

Ffigur 11. Diddordeb mewn cymorth gan Lywodraeth Cymru fesul math ............................ 20

# Geirfa

### Busnesau bach a chanolig (BBaCh)

Diffinnir BBaCh fel busnesau sydd â hyd at 250 o weithwyr (llawn amser neu ran-amser).

### Trosiant ariannol is

Mae hyn yn cyfeirio at y busnesau hynny sydd â throsiant sy’n is na £100,000 y flwyddyn.

### Trosiant ariannol canolig

Mae hyn yn cyfeirio at y busnesau hynny sydd â throsiant o rhwng £101,000 a £500,000 y flwyddyn.

### Trosiant ariannol uchel

Mae hyn yn cyfeirio at y busnesau hynny sydd â throsiant o dros £501,000 y flwyddyn.

## Cyflwyniad a chefndir

Yn unol â Blaenoriaethau'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd rhwng 2022 a 2027, mae Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Anabledd Llywodraeth Cymru yn cynnal rhaglen ymchwil ar y rhwystrau i gyflogaeth a wynebir gan bobl anabl yng Nghymru. Fel rhan o'r rhaglen waith hon, comisiynodd yr uned gyfres o gwestiynau ynghylch cyflogi pobl anabl mewn busnesau bach a chanolig yn yr Arolwg Omnibws Busnes Gwanwyn 2025 gan Beaufort Research.

Diben yr ymchwil hwn yw archwilio canfyddiadau perchnogion ac uwch-reolwyr mewn busnesau bach a chanolig yng Nghymru am gyflogi pobl anabl a mesur eu hymwybyddiaeth o'r polisi a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Gellir defnyddio'r dystiolaeth hon i hysbysu penderfyniadau ac ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth y mae pobl anabl yn eu hwynebu, gan helpu i lunio Cymru decach a mwy hygyrch i bawb.

Mae'r canfyddiadau wedi'u cyflwyno mewn pedair rhan yn fras. Nod y rhan gyntaf yw asesu nifer y bobl anabl sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd mewn gwahanol fathau o fusnesau bach a chanolig ledled Cymru a mesur ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyflogwyr o'r Model Cymdeithasol o Anabledd a Deddf Cydraddoldeb 2010. Dilynir hyn gan ran yn archwilio sut y mae cyflogwyr yn ystyried hygyrchedd a chynhwysiant arferion presennol eu sefydliad o ran recriwtio, ffyrdd o weithio, a chyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa.

Yn y drydedd rhan, mae'r adroddiad yn cwmpasu barn cyflogwyr ynghylch cyflogi pobl anabl, gan gynnwys manteision gweithlu cynhwysol ac unrhyw heriau canfyddedig. Mae'r rhan olaf yn ceisio mesur ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth presennol Llywodraeth Cymru, a faint sy'n manteisio arnynt, a phenderfynu pa gymorth pellach y gellid ei ddarparu i gyflogwyr busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

### Cyd-destun

Ym mis Mawrth 2025, roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl anabl yng Nghymru yn 52.7%, o gymharu â 81.9% ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn cyfateb i Fwlch Cyflogaeth Anabledd yng Nghymru o 29.1% sydd, er gwaethaf y ffaith ei fod yn welliant ar flynyddoedd blaenorol, wedi aros yn gyson uwch na chyfradd gyffredinol y DU am fwy na 10 mlynedd. Yn ogystal, mae pobl anabl yng Nghymru yn parhau i gael tâl is na phobl nad ydynt yn anabl am eu cyflogaeth. Yn ôl dadansoddiad diweddar o ddata yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth mae yna fwlch cyflog parhaus yng Nghymru, gyda phobl anabl yn cael eu talu £1.18 yn llai yr awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl.

Mae'r ffigurau hyn yn amlygu problemau dyfnach ynghylch yr amrywiaeth o ganlyniadau niweidiol a'r rhwystrau parhaus i gyflogaeth y mae pobl anabl yn eu hwynebu yng Nghymru. Yn 2021, cyflwynodd Drws ar Glo: Datgloi bywydau a

hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 dystiolaeth bod pobl anabl ledled y wlad wedi'u heffeithio'n anghymesur gan y pandemig Covid-19 oherwydd eu bod wedi'u cyflogi mewn swyddi a diwydiannau lle'r oedd risg uwch o Covid-19 a lle'r oeddent yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan fesurau ymateb a weithredwyd gan lywodraethau Cymru a'r DU.

Nododd yr adroddiad nifer o rwystrau hefyd a allai fod wedi'u gwaethygu gan y pandemig, a oedd â'r potensial i effeithio'n negyddol ar ragolygon cyflogaeth ac uchelgeisiau gyrfaol pobl anabl i'r dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth i awgrymu bod hyder pobl anabl wedi'i danseilio gan y pandemig, bod rhai cyflogwyr yn llai tebygol o gyflogi unigolyn anabl, a bod rhai pobl anabl wedi ei chael hi'n anodd sicrhau addasiadau rhesymol a phriodol drwy eu cyflogwyr a chynlluniau cymorth y llywodraeth.

Ers y pandemig, mae'r ymchwil wedi dangos bod pobl anabl wedi parhau i wynebu rhwystrau i gyflogaeth ledled Cymru a'r DU. Fel rhan o ymgynghoriad pwyllgor i anabledd a chyflogaeth, canfu ymchwilwyr y Senedd, o 2024, fod pobl anabl yng Nghymru'n parhau i wynebu rhwystrau cysylltiedig â phrosesau ymgeisio anhygyrch, ymwybyddiaeth wael o anabledd ymysg cyflogwyr a gwasanaethau cymorth, cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer gwaith â thâl, anawsterau wrth geisio manteisio ar addasiadau rhesymol, a rhaglenni hawliau a chymorth cyfyngol mewn perthynas â budd-daliadau.

Fel rhan o raglen waith ehangach, mae'r adroddiad hwn yn archwilio ymhellach rai o'r rhwystrau hyn gyda chyflogwyr busnesau bach a chanolig, sydd i gyfrif am ychydig o dan ddwy ran o dair (62.3%) o'r holl gyflogaeth yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn cyfrannu at y sail dystiolaeth ynghylch rhwystrau i gyflogaeth a'u hachosion drwy archwilio canfyddiadau, dealltwriaeth, ac ymwybyddiaeth cyflogwyr o faterion sy'n ymwneud ag anabledd, gan arsylwi ar y ffordd y mae'r rhain yn amrywio mewn perthynas â chyfansoddiad amrywiol busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

# Methodoleg

Comisiynodd Llywodraeth Cymru gyfres o 25 o gwestiynau sy'n ymwneud â chyflogaeth pobl anabl yn Arolwg Omnibws Busnes Gwanwyn 2025 dan ofal Beaufort Research. Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfweliadau ffôn gyda sampl o unigolion mewn uwch swyddi sy'n gwneud penderfyniadau o fusnesau bach a chanolig ledled Cymru, gyda chwotâu ar gyfer y rhanbarth, gweithgaredd y busnes, a maint y busnes.

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr arolwg rhwng 10 Chwefror 2025 a 14 Mawrth 2025, gyda 503 o gyfweliadau wedi'u cynnal gan weithwyr maes Beaufort gan ddefnyddio technoleg cyfweliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI).

Datblygwyd y cwestiynau gan Beaufort Research ac Uned Tystiolaeth Gwahaniaethu ar Sail Anabledd Llywodraeth Cymru. Er na chynhaliwyd profion gwybyddol, roedd cwestiynau penodol wedi'u halinio ag offerynnau ymchwil blaenorol fel yr arolwg 'SHELL', lle'r oedd hynny'n bosibl. Cafodd cyd-destun a therminoleg y cwestiynau eu hysbysu gan y Model Cymdeithasol o Anabledd a diffiniadau llywodraeth y DU ar gyfer polisi a deddfwriaeth berthnasol, fel gweithredu cadarnhaol yn y gweithle.

Roedd y fframwaith samplo'n deillio o gronfa ddata a ddarparwyd gan y cwmni Market Location. Dewiswyd pob busnes ar hap o'r gronfa ddata hon a chysylltwyd â nhw. Roedd hyn er mwyn sicrhau sampl cynrychiadol a chymesur o sefydliadau o wahanol ranbarthau, â gwahanol fathau o weithgareddau busnes, ac o feintiau gwahanol o bob cwr o Gymru.

I wella'r elfen gynrychiadol ymhellach, defnyddiwyd matrics pwysoli ar ôl casglu'r data i addasu ar gyfer unrhyw anghysondebau bach rhwng y sampl a gyflawnwyd a phoblogaeth wirioneddol busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Defnyddiwyd matrics pwysoli 24 cell i alinio'r sampl â phroffil y boblogaeth, sy'n cynnwys 4 rhanbarth busnes a 6 grŵp gweithgaredd busnes fel yr amlinellir isod.

### Proffil yr ymatebwyr

Cyflawnodd Arolwg Omnibws Busnes Gwanwyn 2025 sampl o 503 o fusnesau bach a chanolig ledled Cymru. Mae'r busnesau hyn wedi'u diffinio fel 'busnesau sydd â hyd at 250 o weithwyr (llawn amser neu ran-amser) yn y lleoliad y cysylltwyd ag ef'. Roedd yr ymatebwyr yn uwch aelodau o staff, a ddiffinnir gan weinyddwr yr arolwg fel 'y Rheolwr, Perchennog, Cyfarwyddwr Rheoli, neu uwch reolwr arall sy'n bresennol ar adeg y cyfweliad'.

Mae manylion sylfaen y sampl fesul rhanbarth a gweithgaredd busnes wedi'u hamlinellu isod. Darperir manylion pellach ar sail maint y busnes a'r trosiant ariannol yn Atodiad A.

**Tabl 1. Manylion y sampl fesul rhanbarth busnes**

| Rhanbarth | Sampl |
|---|---|
| Y Canolbarth | 17% |
| Gogledd Cymru | 24% |
| De-ddwyrain Cymru | 38% |
| De-orllewin Cymru | 21% |

Sylfaen: 503

Pennwyd y categorïau o weithgaredd busnes gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol presennol y DU o Weithgareddau Economaidd (UK SIC 2007). Mae'r sampl yn cynnwys sefydliadau sector preifat yn unig ac nid yw'n cynnwys y rhannau a ganlyn o UK SIC 2007: gweinyddiaeth gyhoeddus/amddiffyn, addysg, iechyd/gwaith cymdeithasol, sefydliadau alldiriogaethol, a gweithgareddau gwasanaeth eraill (ar wahân i sefydliadau aelodaeth). Nodir manylion llawn y busnesau fesul gweithgaredd yn Nhabl 2.

**Tabl 2. Manylion y sampl fesul gweithgaredd busnes**

| Gweithgaredd | Categori'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol | Sampl |
|---|---|---|
| Gwestai, bwytai a gwasanaethau eraill | I, J (58, 59, 60), R, S (95, 96) | 26% |
| Cyfanwerthu a manwerthu | G | 22% |
| Gweithgareddau cyllid, eiddo tirol a busnes | J (62, 63), K, L, M, N | 17% |
| Adeiladu, trafnidiaeth a chyfathrebu | F, H, J (61) | 16% |
| Amaeth, mwyngloddio a chyfleustodau | A, B, D, E | 12% |
| Gweithgynhyrchu | C | 7% |

Sylfaen: 503

# Canfyddiadau


## Pobl anabl sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd mewn busnesau bach a chanolig

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr ynghylch cyflogaeth bresennol pobl anabl o fewn eu sefydliadau.

Ymysg y busnesau â 2 weithiwr neu fwy (N=391), adroddodd 16% fod eu cwmni'n cyflogi pobl anabl ar hyn o bryd. O'r rhain (N=62), roedd tua hanner (53%) yn cyflogi o leiaf un unigolyn anabl mewn rôl reoli, cyfarwyddwr, neu swyddogol uwch; ac adroddodd chwarter ohonynt (25%) fod gweithiwr wedi dod yn anabl tra ei fod wedi'i gyflogi gan eu sefydliad.

Er bod y ganran o fusnesau bach a chanolig sy'n cyflogi pobl anabl wedi aros yn eithaf cyson ar draws rhanbarthau daearyddol, gan amrywio rhwng 14% a 17%, roedd amrywiad sylweddol rhwng y mathau gwahanol o weithgaredd busnes. Fel y nodir yn Ffigur 1, pobl anabl oedd yn fwyaf tebygol o gael eu cyflogi mewn busnesau 'Adeiladu a Thrafnidiaeth' (21%), ac yn lleiaf tebygol o gael eu cyflogi o fewn 'Amaeth, Mwyngloddio a Chyfleustodau' (9%).

**Ffigur 1. Canran y sefydliadau â 2 weithiwr neu fwy sy'n cyflogi pobl anabl ar hyn o bryd fesul gweithgaredd busnes**




Sylfaen: 391

Gwelwyd amrywiad pellach yng nghyfran y gweithwyr anabl rhwng maint y sefydliad a maint y trosiant. Canfuwyd bod sefydliadau â 10 neu fwy o weithwyr dair gwaith yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn cyflogi pobl anabl (34%) o gymharu â'r rheini o sefydliadau â rhwng 2 a 9 o weithwyr (11%). Yn yr un modd, roedd sefydliadau â

throsiant ariannol canolig (30%) fwy na dwywaith yn fwy tebygol o gyflogi pobl anabl na'r rheini â throsiant ariannol is (12%).


Er na ofynnwyd i unig fasnachwyr a oeddent yn uniaethu fel unigolyn anabl, gofynnwyd cwestiynau i'r holl ymatebwyr ar sail safonau cysoni'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer cyflyrau iechyd hirdymor sy'n parhau a chyfyngiad ar weithgaredd. O blith yr ymatebion gan unig fasnachwyr (N=112), adroddodd 23% fod ganddynt gyflwr iechyd neu salwch hirdymor ac adroddodd 6% fod rhwystrau sy'n ymwneud â'r cyflyrau hyn yn effeithio 'llawer' ar eu gweithgareddau bob dydd.

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Gofynnwyd cwestiynau i'r ymatebwyr ynghylch eu hymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf') a'i darpariaethau mewn perthynas â chyflogi pobl anabl, a'r ffordd y caiff y ddeddf ei gweithredu; yn benodol, o safbwynt addasiadau rhesymol a gweithredu cadarnhaol.

Pan ofynnwyd iddynt am eu hymwybyddiaeth o'r Ddeddf, roedd 51% o'r sefydliadau a oedd yn cynnwys 2 weithiwr neu fwy wedi clywed amdani ac yn gwybod naill ai 'ychydig' neu 'lawer' am ei darpariaethau sy'n ymwneud â phobl anabl, tra bod 30% heb glywed am y Ddeddf o gwbl. Ceir manylion llawn fesul ymateb yn Ffigur 2.


**Ffigur 2. Ymwybyddiaeth o'r darpariaethau anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**




Sylfaen: 391

Roedd ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a gwybodaeth amdani yn eithaf cyson ar draws y rhanbarthau daearyddol; fodd bynnag, dangoswyd bod amrywiadau nodedig rhwng y gwahanol fathau o weithgaredd busnes. Fel y nodir yn Ffigur 3, roedd dros 50% o'r sefydliadau yn gwybod o leiaf 'ychydig' am y Ddeddf a'i darpariaethau ar draws pob gweithgaredd busnes, ar wahân i Amaeth (35%) a Chyfanwerthu a Manwerthu (47%).

**Ffigur 3. Ymwybyddiaeth o'r darpariaethau anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fesul gweithgaredd busnes [nodyn 1]**




Sylfaen: 391
Nodyn 1: Oherwydd talgrynnu, ni fydd yr holl ganrannau'n llunio swm i 100%

Roedd ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ar ei huchaf ymhlith y sefydliadau sy'n cyflogi pobl anabl ar hyn o bryd (N=62), gyda 80% ohonynt wedi clywed am y Ddeddf a'i darpariaethau, o gymharu â 46% o'r rheini nad oeddent yn cyflogi pobl anabl (N=312). Roedd sefydliadau mwy, sef y rheini a oedd yn cyflogi 10 neu fwy o weithwyr, hefyd yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r Ddeddf a'i darpariaethau (66%); na sefydliadau llai a oedd yn cyflogi rhwng 2 a 9 o bobl (47%).

Yn dilyn y cwestiwn ar ymwybyddiaeth, gofynnwyd i ymatebwyr o sefydliadau a oedd yn cyflogi o leiaf 2 o bobl a oedd eu sefydliad wedi defnyddio darpariaethau o dan y Ddeddf, fel addasiadau rhesymol neu weithredoedd cadarnhaol ar gyfer gweithiwr anabl neu ymgeisydd am swydd o fewn y 2 flynedd ddiwethaf (N=392). Nid oedd mwyafrif (79%) y busnesau wedi gwneud addasiadau rhesymol oherwydd nad oedd eu hangen neu na wnaed cais amdanynt, gyda dim ond 1% yn methu â bodloni cais pan ddaeth un i law.


O'r 15% a wnaeth addasiadau rhesymol (N=57), roedd cyfanswm o 95 o addasiadau wedi'u gwneud i gyd, gyda newidiadau i arferion gwaith yn fwyaf cyffredin (63%), yna addasiadau i fynediad corfforol (49%) a darparu offer neu gefnogaeth ychwanegol (46%).

Pan ofynnwyd am weithredu cadarnhaol, dim ond 3% o'r busnesau a arolygwyd a oedd wedi defnyddio'r ddarpariaeth i recriwtio neu ddyrchafu gweithiwr neu ymgeisydd anabl.

## Y Model Cymdeithasol o Anabledd

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr (N=503) ynghylch eu hymwybyddiaeth o'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (79%) naill ai'n gwbl anghyfarwydd â'r cysyniad neu wedi clywed yr enw yn unig yr oeddent, fel y nodir yn Ffigur 4. O'r rheini a oedd wedi clywed am y Model Cymdeithasol (N=95), dywedodd un o bob tri (33%) fod eu sefydliad wedi mabwysiadu dull Model Cymdeithasol.

**Ffigur 4. Ymwybyddiaeth o'r Model Cymdeithasol o Anabledd**





Sylfaen: 503

Roedd ymwybyddiaeth o'r model cymdeithasol yn gyson ar draws rhanbarthau a maint busnesau. Roedd ychydig o amrywiad wrth ystyried trosiant ariannol busnesau, gyda'r rheini â throsiant ariannol uwch yn fwy tebygol o fod wedi clywed ac o wybod o leiaf 'ychydig' amdano (19%) o gymharu â'r rheini â throsiant ariannol canolig neu is, sef 5% a 9%, yn y drefn honno.

Roedd gwahaniaethau bach hefyd mewn ymwybyddiaeth rhwng busnesau yn dibynnu ar eu math o weithgaredd. Fel y nodir yn Ffigur 5, er bod yr ymwybyddiaeth isaf ymysg sefydliadau 'Cyfanwerthu a Manwerthu' (14%), ni adroddodd unrhyw ymatebwyr o sefydliadau 'Gweithgynhyrchu' eu bod yn gwybod 'ychydig' neu 'lawer' am y Model Cymdeithasol y tu hwnt i'w enw.

**Ffigur 5. Ymwybyddiaeth o'r Model Cymdeithasol fesul math o weithgaredd busnes**




Sylfaen: 503

## Arferion gwaith presennol


Gofynnwyd i'r sefydliadau i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r tri datganiad a ganlyn, gyda phob un yn ymwneud â pha mor hygyrch neu gynhwysol oedd eu busnes ar gyfer gweithwyr ac ymgeiswyr anabl yn eu barn hwy:

1. Mae fy musnes yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr anabl.
2. Mae fy musnes yn mabwysiadu arferion gwaith sy'n cynnwys pobl anabl.
3. Mae gan bobl anabl gyfleoedd cyfartal i ddatblygu o fewn fy musnes neu sefydliad.

Mae'r canfyddiadau a ganlyn yn cyfeirio at fusnesau â 2 weithiwr neu fwy. At ddibenion adrodd, mae 'cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'cytuno' a 'cytuno'n gryf', tra bod 'anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'anghytuno' ac 'anghytuno'n gryf'.

Fel y nodir yn Ffigur 6, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o fusnesau â 2 weithiwr neu fwy (N=391) yn cytuno bod eu sefydliad yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl (62%) a bod gan bobl anabl gyfleoedd cyfartal i ddatblygu eu gyrfaoedd (60%). Fodd bynnag, roedd y cytundeb ymysg y busnesau hyn ychydig yn is ynghylch a oedd gan eu busnes arferion gwaith ar hyn o bryd a oedd yn gynhwysol ar gyfer pobl anabl (50%).

**Ffigur 6. Barn ymatebwyr am hygyrchedd a chynhwysiant eu sefydliad**




Sylfaen: 391

Roedd amrywiad nodedig ar draws y tri datganiad rhwng sefydliadau o ranbarthau gwahanol yng Nghymru. Roedd busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru (71%) yn fwy tebygol o gytuno bod eu busnes yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl o gymharu â busnesau o'r Canolbarth (44%), De-orllewin Cymru (58%) a Gogledd Cymru (65%).

Pan ofynnwyd a oedd eu busnes wedi mabwysiadu arferion gwaith cynhwysol, roedd y rheini wedi'u lleoli yn Ne Cymru yn fwy tebygol o gytuno, gyda 53% yn cytuno o blith y rheini yn Ne-orllewin Cymru a 56% yn y De-ddwyrain. O gymharu, roedd busnesau yn y Canolbarth (41%) a Gogledd Cymru (44%) yn llai tebygol o gytuno.

Roedd dros hanner y busnesau a arolygwyd ledled y Canolbarth (52%), Gogledd Cymru (57%) a De-orllewin Cymru (58%) yn cytuno bod eu busnes yn cynnig cyfleoedd cyfartal i ddatblygu yn eu gyrfaoedd i ymgeiswyr anabl, ond roedd nifer amlwg uwch o sefydliadau o Dde-ddwyrain Cymru yn cytuno, sef 68%.

**Tabl 3. Canran y sefydliadau sy'n cytuno â'r datganiadau cynhwysiant fesul rhanbarth**

| | Y Canolbarth | Gogledd Cymru | De-ddwyrain Cymru | De-orllewin Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Mae fy musnes yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr anabl | 44% | 65% | 71% | 58% |
| Mae fy musnes yn mabwysiadu arferion gwaith sy'n cynnwys pobl anabl | 41% | 44% | 56% | 53% |
| Mae gan bobl anabl gyfleoedd cyfartal i ddatblygu o fewn fy musnes neu sefydliad | 52% | 57% | 68% | 58% |

Sylfaen: 391

Fel y nodir yn Nhabl 4, roedd sefydliadau mwy gyda 10 neu fwy o weithwyr yn fwy tebygol o ystyried bod eu busnes yn hygyrch neu'n gynhwysol ar gyfer pobl anabl ar draws pob un o'r tri datganiad o gymharu â busnesau llai gyda rhwng 2 a 9 o weithwyr.

Roedd y cytundeb ymysg sefydliadau mwy 34 pwynt canran yn uwch nag ymysg busnesau llai ar gyfer croesawu ceisiadau gan bobl anabl, 31 pwynt canran yn uwch ar gyfer mabwysiadu arferion gwaith cynhwysol, a 24 pwynt canran yn uwch ar gyfer darparu cyfleoedd datblygu cyfartal.


**Tabl 4. Canran y sefydliadau sy'n cytuno â'r datganiadau cynhwysiant ar sail nifer y gweithwyr**

| | Rhwng 2 a 9 | 10 neu fwy |
|---|---|---|
| Mae fy musnes yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr anabl | 55% | 89% |
| Mae fy musnes yn mabwysiadu arferion gwaith sy'n cynnwys pobl anabl | 43% | 74% |
| Mae gan bobl anabl gyfleoedd cyfartal i ddatblygu o fewn fy musnes neu sefydliad | 55% | 79% |

Sylfaen: 391

Gellir gweld patrwm tebyg yn Ffigur 7, gyda busnesau â throsiant ariannol uwch yn gyson fwy tebygol o weld eu hunain fel rhai cynhwysol. Roedd hyn ar ei amlycaf mewn perthynas â chroesawu ceisiadau gan ymgeiswyr anabl, gyda 82% o sefydliadau â throsiant ariannol uchel yn cytuno o gymharu â 64% o sefydliadau â throsiant ariannol canolig a 44% o sefydliadau â throsiant ariannol is.

**Ffigur 7. Canran y sefydliadau sy'n cytuno â'r datganiadau cynhwysiant ar sail trosiant ariannol**




Sylfaen: 391

Yn gyffredinol, roedd llai o amrywiad rhwng y sefydliadau â mathau gwahanol o weithgaredd busnes, ac eithrio'r sefydliadau 'Amaeth, Mwyngloddio, a Chyfleustodau', a oedd yn ystyried mai hwy oedd y lleiaf cynhwysol ar draws y tri datganiad. O'r sefydliadau hyn, roedd 38% yn cytuno bod eu busnes yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl (28 pwynt canran yn is o gymharu â'r holl fusnesau eraill), roedd 29% yn cytuno bod eu busnes wedi mabwysiadu arferion gwaith cynhwysol (23 pwynt canran yn is), ac roedd 33% yn cytuno bod gan bobl anabl gyfleoedd datblygu cyfartal (30 pwynt canran yn is).

## Canfyddiadau ynghylch cyflogi pobl anabl


Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y manteision a'r heriau canfyddedig sy'n gysylltiedig â recriwtio gweithwyr anabl i ymatebwyr o sefydliadau sy'n cynnwys dau weithiwr neu fwy (N=391).

### Y manteision sy'n gysylltiedig â chyflogi pobl anabl

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr, heb ysgogiad pellach, ynglŷn â'r manteision canfyddedig sy'n gysylltiedig â chyflogi pobl anabl, cyfeiriwyd amlaf at y manteision sy'n gysylltiedig â 'chyfleoedd cyfartal' a 'gallu recriwtio'r unigolyn sy'n addas i'r swydd' (9%).

Pan gynigwyd ysgogiadau ychwanegol, ar sail yr ymatebion i arolygon blaenorol, roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o nodi manteision fel y nodir yn Ffigur 8.

**Ffigur 8. Manteision canfyddedig cyflogi pobl anabl**




Sylfaen: 391

O'r ysgogiadau a ddarparwyd, y fantais a nodwyd amlaf oedd 'delwedd gadarnhaol o'r busnes' fel cyflogwr nad yw'n gwahaniaethu (55%), ac yna'r fantais o gael 'gwerthfawrogiad o amrywiaeth', drwy annog barn a safbwyntiau ehangach (53%). Roedd y manteision hyn yn gyson ymysg y ddau uchaf a nodwyd ar draws pob math o fusnes, gyda 'mwy o ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch' hefyd wedi'i gynnwys fel y fantais uchaf ar y cyd ar gyfer 'Amaeth, Mwyngloddio, a Chyfleustodau' (52%) a'r ail uchaf ar y cyd (51%) ar gyfer sefydliadau 'Cyfanwerthu a Manwerthu'.

Y manteision a nodwyd lleiaf yn gyffredinol oedd 'gwell presenoldeb' (32%) a 'cadw sgiliau' (40%). Roedd hyn ar ei amlycaf ymysg sefydliadau 'Gwasanaethau Cyllid a Busnes', gyda 19% yn nodi'r cyntaf fel mantais a 31% yn nodi'r ail.


Ystyriwyd bod sefydliadau â 10 neu fwy o weithwyr yn llawer mwy tebygol o nodi manteision o gymharu â sefydliadau llai, gyda rhwng 2 a 9 gweithiwr. Pan gawsant eu hysgogi, dim ond 6% o'r cyfranogwyr o sefydliadau mwy a ymatebodd gyda 'Dim un o'r rhain/dim byd' o gymharu â 25% o'r cyfranogwyr o sefydliadau llai. Gwelwyd tuedd debyg ond llai amlwg ymhlith sefydliadau â throsiant ariannol gwahanol, gan fod busnesau â throsiant ariannol isel neu ganolig ddwywaith yn fwy tebygol (25%) o ateb 'Dim un o'r rhain/dim byd' pan ofynnwyd iddynt am fanteision canfyddedig, o gymharu â'r rheini â throsiant uwch (12%).

### Yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflogi pobl anabl

Gofynnodd cwestiwn digymell arall i'r ymatebwyr ystyried unrhyw heriau y gallai eu sefydliadau eu hwynebu wrth gyflogi pobl anabl. Roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o ddyfynnu problemau yn ymwneud â hygyrchedd y gweithle (23%) a gofynion corfforol y swydd (19%). Roedd yr heriau cyffredin eraill a nodwyd yn cynnwys problemau sy'n benodol i ddiwydiannau arbennig (12%) a risgiau iechyd a diogelwch (6%), gyda 14% o'r ymatebwyr yn dweud y byddai unrhyw heriau'n dibynnu ar 'natur yr anabledd'.

Gofynnwyd ail gwestiwn i'r ymatebwyr am heriau canfyddedig, gyda'r cwestiwn dilynol yn cynnwys ysgogiadau ar sail offerynnau ymchwil blaenorol. Fel y nodir yn Ffigur 9, nododd mwy na hanner yr ymatebwyr (55%) risgiau iechyd a diogelwch fel her bosibl pan gawsant eu hysgogi, gydag un rhan o dair wedi nodi'r costau sy'n gysylltiedig â darpariaeth hygyrchedd neu addasiadau rhesymol (36%) a gallu staff (31%).

**Ffigur 9. Heriau canfyddedig cyflogi pobl anabl**




Sylfaen: 391

Roedd y tair her uchaf hyn a nodwyd yn eithaf cyson ar draws y mathau o weithgaredd busnes, maint y busnes, a'r trosiant ariannol, gyda rhai eithriadau. Ar gyfer y math o weithgaredd busnes, roedd sefydliadau 'Gwasanaethau Cyllid a Busnes' yn ystyried bod 'pechu rhywun yn ddamweiniol' (25%) yn fwy o her na 'galluoedd staff' (22%), tra bod sefydliadau 'Gweithgynhyrchu' yn ystyried 'presenoldeb' (33%) yn fwy o her na 'costau' (30%). Yn ogystal, nododd y sefydliadau â throsiant ariannol is ddiffyg 'galluoedd cyfreithiol' o fewn eu busnes fel un o'u 3 phrif her, gyda 'galluoedd staff' ar yr un lefel, ar 32%.


Fel y gwelir o'r wybodaeth uchod, roedd y sefydliadau a nododd heriau yn amrywio'n sylweddol ar sail y mathau o weithgaredd busnes. Er enghraifft, roedd sefydliadau 'Amaeth, Mwyngloddio, a Chyfleustodau' yn llawer mwy tebygol o nodi iechyd a diogelwch fel risg (75%) o gymharu â sefydliadau eraill. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod wedi nodi her, oherwydd prin oedd y rhai a ddewisodd 'Dim un o'r rhain/dim byd', sef 12%, gyda 'Gweithgynhyrchu' a 'Cyllid' ar lefel ddigon tebyg, sef 15% a 16%, yn y drefn honno. Roedd 26% o'r grŵp 'Adeiladu' wedi dewis 'Dim un o'r rhain/dim byd', gyda hwy hefyd yn adrodd eu bod yn cyflogi'r nifer fwyaf o bobl anabl.

## Cynlluniau cymorth y Llywodraeth

I fesur ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr (N=503) a allent enwi unrhyw gynlluniau gan y Llywodraeth sy'n cefnogi sefydliadau yng Nghymru i gyflogi pobl anabl. Cyn darparu ysgogiad pellach, ni allodd 96% o'r ymatebwyr nodi cynllun a nododd 1% yn ychwanegol wasanaeth nad yw llywodraeth Cymru neu'r DU yn ei gynnig bellach.

Yna darparwyd rhestr o gynlluniau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt nodi pa rai, os o gwbl, yr oeddent yn ymwybodol ohonynt. Gydag ysgogiad ychwanegol, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o un cynllun a gefnogir o leiaf i 63%, a'r 'Rhaglen brentisiaethau' (48%) a 'Mynediad at Waith' (30%) oedd y ddau a nodwyd amlaf ar draws yr holl sefydliadau, waeth beth fo'u maint, rhanbarth, neu weithgaredd busnes.

**Ffigur 10. Ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth cyflogaeth**




Sylfaen: 503

Roedd sefydliadau â 10 neu fwy o weithwyr yn fwy tebygol o fod wedi clywed am gynllun gan fod 80% wedi clywed am o leiaf un rhaglen a gynigwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn 20 pwynt canran yn uwch na'r busnesau a oedd yn cyflogi rhwng 2 a 9 unigolyn (60%). Roedd hyn hefyd yn wir yn achos busnesau â throsiant ariannol uwch, gyda 79% ohonynt wedi clywed am gynllun a enwyd, sy'n 21 pwynt canran yn uwch na'r sefydliadau â throsiant ariannol is (60%).

Wrth edrych yn fanwl ar y mathau o weithgaredd busnes, roedd cyfran y sefydliadau a oedd wedi clywed am gynllun wedi'i ddylanwadu'n fawr gan y Rhaglen Brentisiaethau. Er enghraifft, er mai sefydliadau 'Gweithgynhyrchu' oedd yn fwyaf tebygol o fod wedi clywed am gynllun Llywodraeth Cymru (79%), roedd hyn yn dibynnu'n fawr ar y ffaith bod 70% ohonynt wedi clywed am y Rhaglen Brentisiaethau. Yn y cyfamser, y sefydliadau 'Amaeth, Mwyngloddio, a Chyfleustodau' oedd yn lleiaf tebygol o fod wedi clywed am gynllun (55%) a'r

Rhaglen Brentisiaethau (41%) ond hwy oedd yn fwyaf ymwybodol o'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg (12%) a Cymunedau am Waith (7%).

### Y Defnydd o Gynlluniau Cymorth y Llywodraeth

Gofynnwyd i sefydliadau a oedd yn ymwybodol o un cynllun a enwyd o leiaf, am eu rhan yn y cynllun. O'r rheini â 2 weithiwr neu fwy (N=265), adroddodd 78% ohonynt nad oeddent wedi defnyddio unrhyw un o'r cynlluniau a enwyd, gyda'r nifer yn disgyn i 50% yn achos sefydliadau a oedd yn cyflogi 10 neu fwy o weithwyr.

O'r cynlluniau cymorth cyflogaeth a oedd wedi'u defnyddio, y Rhaglen Brentisiaethau oedd y fwyaf poblogaidd o bell ffordd, gan iddi gael ei defnyddio gan 15% o'r ymatebwyr, gyda'r holl gynlluniau eraill yn amrywio rhwng 1% a 3%.


### Cymorth cyflogaeth

Gofynnwyd hefyd i'r holl ymatebwyr (N=503) ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru eu cefnogi gyda chyflogaeth pobl anabl yn y dyfodol. Heb ysgogiad, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt nad oeddent yn gwybod (41%), neu nad oedd yn berthnasol i'w busnes (15%), gyda 6% arall yn ateb nad oedd angen cymorth arnynt neu nad oeddent yn recriwtio.

O'r mathau o gymorth a nodwyd, cyfeiriwyd at 'cymorth ariannol' (11%) fwyaf, ac yna 'cyllid ar gyfer addasiadau neu i wella hygyrchedd yn y gweithle' (8%) a 'canllawiau cyfreithiol ac Adnoddau Dynol' (6%).

Gofynnodd cwestiwn dilynol am ddiddordeb mewn cymorth gan y Llywodraeth eto, gan ddarparu enghreifftiau i'r ymatebwyr y tro hwn o'r math o gymorth y gellid ei gynnig i fusnesau. Dangosodd tua chwarter yr ymatebwyr ddiddordeb ym mhob un o'r dulliau cymorth a gynigwyd, fel y nodir yn Ffigur 11. Roedd hyn yn cynnwys 27% ar gyfer cymorth i ddeall anghenion pobl anabl, 25% ar gyfer canllawiau ar ofynion cyfreithiol, 24% ar gyfer darparu addasiadau rhesymol, a 23% ar gyfer mynediad at raglenni cymorth.

**Ffigur 11. Diddordeb mewn cymorth gan Lywodraeth Cymru fesul math**




Sylfaen: 503

Sefydliadau mwy a'r rheini â throsiant ariannol uwch oedd yn fwyaf tebygol eto o ddangos diddordeb i dderbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru. Pan gyflwynwyd opsiynau posibl iddynt, roedd gan 60% o'r sefydliadau a oedd yn cynnwys 10 neu fwy o weithwyr ddiddordeb mewn derbyn o leiaf un math o gymorth, o gymharu â 29% o sefydliadau llai. Gwelwyd tuedd debyg ymysg y busnesau â throsiant ariannol uwch, gyda 50% ohonynt yn mynegi diddordeb mewn un neu fwy o opsiynau, o gymharu â 31% o sefydliadau â throsiant is.

Roedd diddordeb y cyfranogwyr mewn cymorth ar ei uchaf ar gyfer 'deall anghenion gweithwyr anabl' ar draws y rhan fwyaf o'r meintiau busnes, trosiant ariannol, a mathau o weithgaredd busnes. Yr eithriadau oedd sefydliadau 'Gweithgynhyrchu', a ddangosodd fwy o ddiddordeb mewn 'darparu addasiadau' (45%), a sefydliadau â throsiant ariannol uwch, a ddangosodd fwy o ddiddordeb mewn 'canllawiau ar ofynion cyfreithiol' (37%).

## Casgliadau

Amcan yr adroddiad hwn oedd archwilio rhai o’r rhwystrau i gyflogaeth y mae pobl anabl yng Nghymru yn eu hwynebu. Ymgysylltodd y gwaith ymchwil â 503 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru drwy’r Arolwg Omnibws Busnes, dan ofal Beaufort Research, a fu’n archwilio ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, a chanfyddiadau cyflogwyr o faterion cysylltiedig â chyflogi pobl anabl. Amlygodd y canfyddiadau amrywiad nodedig rhwng sefydliadau ar sail eu gweithgaredd busnes, eu trosiant ariannol, a’u maint.

### Cyflogaeth bresennol pobl anabl

Roedd sefydliadau mwy, fel y rheini â 10 neu fwy o weithwyr a’r rheini â throsiant ariannol uchel, yn fwy tebygol o gyflogi pobl anabl. Er y gellir disgwyl y bydd y tebygolrwydd y bydd person anabl yn gweithio i sefydliad yn cynyddu gyda nifer y gweithwyr yn gyffredinol, dangosodd y sefydliadau hyn hefyd fwy o ymwybyddiaeth o’r polisi a’r ddeddfwriaeth berthnasol, ac ymgysylltiad uwch â chynlluniau cymorth y Llywodraeth, sydd o bosibl yn dangos bod adnoddau a chapasiti yn ffactorau o safbwynt galluogi cyflogaeth gynhwysol.

### Y Ddeddf Cydraddoldeb a’r Model Cymdeithasol o Anabledd

Roedd ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a’i darpariaethau mewn perthynas â phobl anabl yn isel ar y cyfan, ac yn arbennig felly ymysg sefydliadau ‘Amaeth, Mwyngloddio, a Chyfleustodau’, ond roedd yr ymwybyddiaeth yn amrywio ar sail maint y busnes a’r math o weithgaredd.

Roedd y defnydd o’r darpariaethau mewn perthynas ag anabledd o dan y Ddeddf yn brin yn sgil hynny, gyda phrin yr un sefydliad yn gwneud defnydd o gamau cadarnhaol i recriwtio neu ddyrchafu gweithiwr anabl. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o’r busnesau’n gallu darparu addasiadau rhesymol ar gais.

Roedd y rhan fwyaf o’r sefydliadau hefyd yn anghyfarwydd â’r Model Cymdeithasol o Anabledd, gyda llai nag un o bob deg o’r ymatebwyr yn gwybod ‘ychydig’ am y model hyd yn oed.

### Arferion gwaith presennol

Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno bod eu busnes yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr anabl a bod eu busnes yn darparu cyfleoedd cyfartal i ddatblygu i weithwyr anabl, tra bod o dan hanner ohonynt yn ystyried bod eu harferion gweithio presennol yn gynhwysol i bobl anabl.

Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio’n sylweddol ar sail rhanbarth, maint a throsiant y sefydliad, gyda busnesau mwy a’r rheini wedi’u lleoli yn Ne Cymru ar y cyfan yn ystyried eu hunain yn fwy cynhwysol ar draws y tri datganiad.

Gwelwyd llai o amrywiad ar draws y mathau o weithgaredd busnes, ac eithrio’r sefydliadau Amaeth, Mwyngloddio a Chyfleustodau, a oedd yn ystyried eu hunain yn llai cynhwysol na busnesau eraill ym mhob ardal.

### Canfyddiadau sy’n ymwneud â chyflogi pobl anabl

Roedd dros hanner y sefydliadau a arolygwyd yn cysylltu cyflogi pobl anabl â manteision cysylltiedig ag amrywiaeth, fel cael amrywiaeth ehangach o safbwyntiau, bod â delwedd bositif fel busnes, cael eu gweld gan eraill fel cyflogwr nad yw’n gwahaniaethu. Roedd peth amrywiad rhwng y gwahanol fathau o weithgaredd busnes gydag ‘Amaeth, Mwyngloddio a Chyfleustodau’ a ‘Cyfanwerthu a Manwerthu’ fel ei gilydd yn cyfeirio at ymwybyddiaeth well o iechyd a diogelwch fel eu manteision amlycaf.

Pan ofynnwyd i’r ymatebwyr am yr heriau sy’n gysylltiedig â chyflogi pobl anabl, cyfeiriasant i ddechrau at faterion sy’n ymwneud â hygyrchedd y gweithle a gofynion corfforol y swydd. O’u hysgogi ymhellach, adroddodd dros hanner y sefydliadau a arolygwyd heriau cysylltiedig ag iechyd a diogelwch, gyda thua un rhan o dair ohonynt yn nodi heriau cysylltiedig â chostau a gallu staff. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio yn ôl y gweithgareddau busnes a’r trosiant.

### Cymorth Llywodraeth Cymru

Roedd nifer o ymatebwyr yn anymwybodol o’r cymorth sydd ar gael iddynt gan y Llywodraeth i’w cynorthwyo i gyflogi pobl anabl, ond y Rhaglen Brentisiaethau a Mynediad at Waith oedd y cynlluniau mwyaf adnabyddus.

Pan ofynnwyd i’r ymatebwyr am y math o gymorth yr hoffent ei dderbyn, dangosodd tua chwarter ohonynt ddiddordeb ym mhob un o’r pedwar math o gymorth a amlinellwyd. Er mai cymorth i ddeall anghenion gweithwyr anabl oedd y math mwyaf poblogaidd o gymorth yn gyffredinol, roedd pa gymorth a ffafriwyd a lefel y diddordeb ymhob cymorth yn gyffredinol yn amrywio ar gyfer busnesau â mathau gwahanol o weithgaredd a throsiant ariannol gwahanol.

# Atodiadau

## Atodiad A. Manylion y busnesau

| Nifer y gweithwyr | Sylfaen heb ei bwysoli | Sylfaen wedi'i bwysoli |
|---|---|---|
| 1 | 112 | 112 |
| Rhwng 2 a 9 | 311 | 310 |
| Rhwng 10 a 249 | 80 | 82 |

| Trosiant ariannol | Sylfaen heb ei bwysoli | Sylfaen wedi'i bwysoli |
|---|---|---|
| O dan £100,000 | 181 | 182 |
| Rhwng £101,000 a £500,000 | 159 | 158 |
| £501,000 a mwy | 91 | 92 |
| Ddim yn gwybod | 72 | 71 |

## Atodiad B. Sampl o ddiffiniadau amrywiol

Gogledd Cymru: Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, hen ardaloedd Arfon a Dwyfor

De-ddwyrain Cymru: Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Sir Fynwy, Casnewydd, Merthyr Tudful, Torfaen, Bro Morgannwg

De-orllewin Cymru: Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro

Y Canolbarth: Ceredigion, Powys, hen ardal Meirionnydd